| | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 24 Gorffennaf 2024 |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog** | Cyng Gill German, Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Theuluoedd / Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Rhian Morrlle, Pennaeth Gwasanaethau Plant |
| **Awdur yr adroddiad** | Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg |
| **Teitl** | Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Adroddiad Arolygiad Estyn – Little acorns yng Nghrist y Gair |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. The CIW and Estyn Inspection carried out on Little Acorns at Christ the Word on 20/2/2024 (Appendix 1).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth am yr Arolygiad diweddar gan AGC ac Estyn a gynhaliwyd yn Little Acorns at Christ the Word.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried cynnwys yr adroddiad a rhoi sylwadau fel y bo'n briodol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

# 4. Manylion yr adroaddiad

4.1. Mae Little Acorns at Christ the Word yn Gylch Chwarae, ar ôl Ysgol a Chlwb Gwyliau sy'n darparu gofal diwrnod llawn a sesiynol yn Ysgol Gatholig Crist y Gair yn y Rhyl.

4.2. Agorodd Little Acorns ym mis Awst 2019. Dyma'r arolygiad cyntaf ar y cyd gan AGC ac Estyn o Little Acorns.

4.3. Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farn pedwar pwynt – rhagorol, da, digonol, a gwael. Barnwyd bod pedair thema yn rhagorol ac un thema yn dda.

4.4. Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

4.5. Mae canfyddiadau cryno yn yr adroddiad arolygu yn cynnwys

4.5.1. Lles: Rhagorol: Mae bron pob un o'r plant yn cyfrannu'n wych at sut maent yn chwarae ac yn dysgu. Mae llais y plant yn eithriadol o gryf. Mae plant o bob oed yn rhyngweithio â'i gilydd ac ymarferwyr yn arbennig o dda. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu annibyniaeth yn rhyfeddol o dda, gan gynnwys y plant ieuengaf.

4.5.2. Gofal a datblygiad: Rhagorol: Mae'r ymarferwyr yn cefnogi iechyd a lles plant yn hynod effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn rhoi sylw rhagorol i bob agwedd ar hylendid. Mae'r ymarferwyr yn darparu cymorth rhagorol i'r plant. Mae ymarferwyr yn aml yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn arbennig o dda.

4.5.3. Addysgu ac asesu: Rhagorol: Mae gan yr ymarferwyr berthynas gariadus a chynnes iawn gyda'r plant ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod cyfleoedd o ansawdd uchel i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd. Mae ymarferwyr yn gyson ac yn hynod fedrus yn eu hymagwedd at reoli ymddygiad. Mae ymarferwyr yn mynd ati i hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol Cymru…a…hyrwyddo'r Gymraeg yn dda iawn.

4.5.4. Amgylchedd: Da: Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i blant. Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd chwarae a dysgu effeithiol. Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod plant yn cael gofal da mewn amgylchedd dysgu cefnogol ac ymlacio, sy'n ystyried diddordebau'r plant a'u hanghenion unigol yn dda.

4.5.5. Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol: Mae arweinwyr yn hynod frwdfrydig ac angerddol am waith y lleoliad. Caiff ymarferwyr eu

gwerthfawrogi'n fawr ac mae arweinwyr yn blaenoriaethu lles staff. Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr bartneriaeth ragorol gyda rhieni a gofalwyr.

4.6. Yr unig argymhelliad yn yr adroddiad arolygu oedd: Datblygu'r ardal tu allan i wella ymhellach brofiadau sy'n ennyn diddordeb ac yn herio plant yn effeithiol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Sir Ddinbych iachach a hapusach, gofalgar

5.2. Sir Ddinbych sy'n dysgu ac yn tyfu

5.3. Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn perfformio'n dda

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cynhwysir darpariaeth y gwasanaeth o fewn y cyllidebau a ddyrannwyd

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Yn gyffredinol, bydd angen Asesiad o’r Effaith ar Les ar gyfer penderfyniadau neu gynigion ar gyfer newid er mwyn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau’r Gymraeg. Gan mai adroddiad ar ganlyniad arolygiad yw hwn, nid oes angen Asesiad o’r Effaith ar lesiant

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r Aelod Arweiniol wedi cael gwybod am yr arolygiad. Dyma’r cyfle cyntaf i gyflwyno’r adroddiad yn dilyn ei gyhoeddi.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ddim yn berthnasol

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae’r adroddiad arolygu yn amlygu'r holl feysydd a nodwyd yr oedd angen eu gwella a dim ond un argymhelliad a wnaed.